



Datganiad Hygyrchedd Tŷ Isaf

Tŷ Isaf
Beddgelert
LL55 4YA

01766 890545

Cyflwyniad

1. Siop fechan yw Tŷ Isaf. Mae yng nghanol Beddgelert.
2. Dim ond ar rwydweithiau EE a T Mobile y cewch signal ffôn symudol ym Meddgelert.
3. Tŷ Isaf yw'r adeilad hynaf yn y pentref ac mae'n adeilad rhestredig
4. Mae croeso i gŵn cymorth (a chŵn eraill).

Cyrraedd a Chyfleusterau Parcio

1. Mae Tŷ Isaf yng nghanol y pentref ger y bont. Pan fydd y siop yn agored, mae arwydd mawr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ger y drws.
2. Nid oes lle i barcio wrth y siop. Mae dau faes parcio yn y pentref ac mae peth lle i barcio am ddim ar yr heol.

Toiledau

1. Nid oes toiled cyhoeddus yn Nhŷ Isaf.

Derbynfa i Ymwelwyr

1. Hen ffermdy a godwyd yn yr ail ganrif ar bymtheg yw Tŷ Isaf. Mae'n adeilad rhestredig. Lloriau cerrig sydd ynddo ac maent yn anwastad mewn mannau. Mae'n rhaid dringo 9 o risiau serth i'r rhan o'r siop sydd ar y llawr uchaf.

Arlwyo

1. Nid oes cyfleusterau arlwyo yn Nhŷ Isaf. Mae nifer o gaffis a thafarndai yn y pentref.



Manwerthu

1. Mae mynedfa Tŷ Isaf yn wastad â'r stryd. Mae drws y siop yn agored gan amlaf. Mae'n agor am i mewn ac mae'n 1 metr o led.
2. Mae'r lloriau yn anwastad mewn mannau.
3. Gan fod y trawstiau'n isel, mae angen i ymwelwyr tal fod yn ofalus.
4. Mae'r golau'n wan mewn rhai mannau. Mae'r staff yn barod iawn i helpu ymwelwyr trwy gadarnhau prisiau.
5. Mae rhai eitemau ar silffoedd uchel. Bydd y staff yn barod i helpu i'w hestyn i ymwelwyr.
6. Nid oes dolen sain wrth y til ond mae'r staff yn ymwybodol o arferion da wrth ymwneud ag ymwelwyr â nam ar eu clyw.
7. Mae'r staff yn barod iawn i roi "help llaw" os bydd angen.
8. Ychydig o le i symud sydd yn Nhŷ Isaf ond gwelsom fod y rhan fwyaf o ymwelwyr mewn cadeiriau olwyn yn gallu dod i'r llawr isaf.
9. Mae'r staff yn barod iawn i ddod ag eitemau o'r llawr uchaf i lawr i ymwelwyr sy'n methu dringo'r grisiau.

Manylion cysylltu i gael gwybod rhagor

T: 01766 890545

E: colleen.marsden@nationaltrust.org.uk

Dyddiad: 14/10/19